TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD	9 Ionawr 2017
DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD	16 Ionawr 2017
DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	23 Ionawr 2017

ENW A THEITL YR AELOD CABINET

Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies

PWNC

Dyfodol Amgueddfa Lloyd George

PENDERFYNIAD –

Cymeradwyo'r Dogfennau yn unol â'r Adroddiad Swyddog

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD–

Gweler yr Adroddiad Swyddog

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Dim

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

Taflen benderfyniad Aelod Unigol o Gabinet Cyngor Gwynedd – Adroddiad Swyddog

Enw a Theitl yr Aelod Cabinet:	Cyng. Mandy Williams-Davies Aelod Cabinet: Economi a Chymuned
Enw a Theitl Awdur yr Adroddiad:	Roland Evans Uwch Reolwr Economi a Chymuned
Dyddiad y Cymeradwywyd yr Adroddiad:	9-1-17.
Llofnod yr Aelod (au) Cabinet:	M Wms-Dves

Pwnc: Dyfodol Amgueddfa Lloyd George yn dilyn Her Gwynedd a chyhoeddiad am gyfraniad gwerth £27,000 gan y Trysorlys.

Argymhelliad ar gyfer y penderfyniad:

1. Yn ddarostyngedig ar dderbyn cadarnhad o drefniadau cyllido o £27,000 gan y Trysorlys trwy Lywodraeth Cymru; bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i redeg Amgueddfa Lloyd George am gyfnod estynedig o tua 24 mis o Ebrill 2017 gyda'r nod o ddarganfod model reolaeth amgen i'r adnodd yn ystod y cyfnod hwn;
2. Gweithio gyda'r Cyfeillion, cyrff lleol a chenedlaethol i ddatblygu model rheoli newydd ac i ail-lansio'r apêl yn ogystal ag ymgyrch 'Crowd Funding';
3. Datblygu ceisiadau gyda'r Cyfeillion i adnewyddu ac adfywio'r amgueddfa er mwyn coffau'r canmlwyddiannau pwysig sydd ar y gorwel.

Rheswm dros yr angen am y penderfyniad:
Yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth i roi'r gorau i redeg Amgueddfa Lloyd George, mae £27,000 wedi ei addo gan y Trysorlys i ymateb i'r bwlch. Mae'r adnodd ychwanegol yma o'r Trysorlys yn caniatáu i'r Cyngor wireddu arbediad o £27,000 yn unol a phenderfyniad y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2016, ond hefyd yn caniatáu cyfle i ddatblygu model rheoli amgen dros gyfnod o amser.

Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y penderfyniad:
Byddai parhau i redeg yr amgueddfa gan Gyngor Gwynedd am gyfnod interim yn cynnig cyfle i:

a. ddatblygu cynlluniau rheolaeth amgen;
b. datblygu capasiti o fewn y Cyfeillion, neu unrhyw grwpiau eraill o ddiddordeb a hynny o bosib gyda chymorth grant Galluogi Gwynedd;
c. Sicrhau bod peidio rheoli'r Amgueddfa gan Gyngor Gwynedd yn digwydd ar gyfnod synhwyrol a rhesymol er mwyn gwarchod y ddarpariaeth i'r dyfodol;
d. Ein bod yn ystyried unrhyw oblygiadau cyfreithiol a elusennol.
e. Datblygu cynllun busnes a chynaliadwyedd yr adnodd fydd yn arwain at ddatblygu prosiectau er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn yr amgueddfa ar ran y Cyfeillion;

f. Caniatáu'r cyfeillion i ail-lansio'r apêl a chodi'r diddordeb yn yr amgueddfa o fewn i gynulleidfa genedlaethol (Cymru a Phrydain) a rhyngwladol.

Cofnod o unrhyw fuddiant personol ac unrhyw ollyngiadau perthnasol a ganiatawyd gan y Pwyllgor Safonau
Dim

Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:

Prif Weithredwr

"Yn amlwg, cafodd y mater hwn gryn sylw ym mhroses Her Gwynedd ac roedd barn y cyhoedd a gymerodd ran yn y broses (gyda dim ond 16.2% am ei warchod) a'r Cyngor llawn yn sgil hynny yn glir.

Fodd bynnag, mae ymyrraeth y Llywodraeth Ganol, sy'n beth anghyffredin iawn, yn rhoi'r cyfle i wireddu'r arbediad ariannol tra'n cynnal yr adnodd, o leiaf am gyfnod. Fel y mae'r daflen yn awgrymu, prynu amser mae hyn ac mae angen felly i brysuro'r gwaith o ddatblygu ateb tymor hir ar y cyd a'r cyfeillion."

Prif Swyddog Cyllid

"Mae'r daflen yn nodi fod y penderfyniad yn ddarostyngedig ar dderbyn cadarnhad Llywodraeth Cymru o drefniadau i ariannu'r cyfraniad £27,000 blynyddol (crybwyllwyd yng nghyllideb gwanwyn 2016 Canghellor Llywodraeth San Steffan). Yn ddarostyngedig ar hynny, rwy'n cefnogi cyfeiriad yr Adran Economi a Chymuned tuag at ddyfodol yr Amgueddfa, er mwyn caniatáu cyfle i ddatblygu model rheoli amgen erbyn y dyfodol. Drwy hyn, bydd modd parhau i arbed y £27,000 heb 'doriad'."

Swyddog Monitro

"Mae'r argymhelliad yn ddeilliant o gynnig pecyn ariannu ar gyfer cynnal yr amgueddfa o'r Llywodraeth Ganolog. Yn hynny o beth nid yw gwyro oddi wrth y arbediad a fabwysiadwyd yn ddiweddarach eleni. Yr hyn sydd yn allweddol yw fod y trefniadau ar gyfer y pecyn ariannu yn cael eu cytuno a'u sefydlu yn eglur gyda'r budd-ddeiliaid perthnasol cyn gweithredu'r penderfyniad."

Aelod (au) Lleol -